# Enw'r Prosiect – Yr Her Gofal

# Teitl y Ddogfen – Briff Prosiect

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Prosiect:** | Caryl Elin Lewis, Rheolwr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth |
| **Arweinydd Prosiect:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |

---

## Newidiadau i'r ddogfen

| Dyddiad | Rhif fersiwn y ddogfen | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 29/07/15 | 0.01 | Drafft cyntaf |
| 14/9/15 | 1.0 | Cymeradwyo'r drafft fel fersiwn derfynol . |
| | | |

## Cymeradwyo'r ddogfen

| Cymeradwywyd gan | Llofnod | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## Dosbarthiad y ddogfen

| Enw | Teitl Swydd | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 1. Cefndir y Prosiect

Mae'r prosiect 'Yr Her Gofal' wedi ei adnabod fel un o'r cynlluniau yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion yn y maes Gofal.

Mae'r prosiect hwn yn allweddol er mwyn galluogi'r Adran a'r Cyngor i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a chyflawni eu hamcanion, yng nghyd-destun y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y sefyllfa ariannol a newidiadau demograffig.

Pwrpas y prosiect ydy ceisio sicrhau fod ein budd-ddeiliaid, gan gynnwys pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r angen i newid ar her sydd yn ein hwynebu o fewn y maes gofal. Drwy godi a gwella ymwybyddiaeth o'r her, byddwn yn ceisio ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn allweddol o ran yr agenda ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor (ynghyd â'n partneriaid) yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid.

## 2. Amcanion y prosiect

Mae'n allweddol sicrhau bod ein prif fudd-ddeiliaid sef defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr, y cyhoedd, aelodau etholedig, staff a phartneriaid yn deall beth yw'r dasg sydd yn ein hwynebu o ran trawsnewid gwasanaethau a sicrhau ymateb i anghenion pobl Gwynedd.

Ar ddiwedd y prosiect y nod yw y bydd gan ein budd-ddeiliaid ddealltwriaeth o'r maes a bod gallu cymunedau i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn fwy cadarn.

Erbyn Ebrill 2016 rydym yn anelu i sicrhau y bydd y prosiect wedi cyflawni'r canlynol:-

| Cerrig Milltir | Targed |
|---|---|
| Creu'r 'stori' am y newidiadau yn y maes gofal ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. | Medi 2015 |
| Sefydlu a chynnal grwpiau ffocws gyda staff ac Aelodau er mwyn eu cynnwys yn y gwaith, derbyn syniadau a sicrhau perchnogaeth. | Medi 2015 |
| Mapio budd-ddeiliaid allweddol a datblygu rhaglen digwyddiadau, ymgysylltu a chyfathrebu. | Medi 2015 |
| Datblygu gweledigaeth a gwerthoedd mewn cydweithrediad gyda staff ac Aelodau | Hydref 2015 |
| Datblygu adnoddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a defnyddwyr, rhyddhau datganiadau i Newyddion Gwynedd a phapurau lleol. | Hydref 2015 |
| Penodi Rheolwr Llesiant | Hydref 2015 |
| Cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori gyda chymunedau a fforymau defnyddwyr er mwyn adnabod cryfderau, adnoddau, cyfleoedd anffurfiol a bylchau o fewn cymunedau. | Ionawr 2015 |
| Datblygu cynllun hybu llesiant sy'n ymateb i'r bylchau o fewn cymunedau ac sy'n ysgogi gweithredu cymunedol | Chwefror 2015 |
| Gweithio hefo cymunedau a phartneriaethau allweddol i weithredu'r cynllun hybu llesiant. | Mawrth 2015 |

## 3. Strwythur y tîm prosiect

Bydd **Grŵp craidd yn cyfarfod yn wythnosol**, mae ei aelodaeth yn cynnwys:
Caryl Elin Lewis - Rheolwr Prosiect
Bethan Eluned Jones, Swyddog Comisiynu
Sandra Jones-Parry, Uwch Ymarferydd
Sarah Scott / Sion Gwynfryn Williams, Uned Gyfathrebu Gorfforaethol
Gill Paul, Uned Datblygu Gweithlu

Bydd y **Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn fisol,** yn cynnwys aelodau'r Grŵp Craidd ac yr isod yn ychwanegol:
Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Arweinydd Prosiect
Janet Roberts, Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi Newid
Arwel Owen, Uwch Reolwr Tai a Llesiant

## 4. Amserlen ac Adnoddau

Mae'r prosiect hwn i'w gwblhau erbyn Ebrill 2016.

Mae cyllideb ar gael gan y Pennaeth Adran er mwyn cyflawni'r pecynnau gwaith. Mae'r rhaglen waith yn darparu gwybodaeth fanwl am y pecynnau gwaith unigol.